# BARN ADOLYGIAD Oriel Lockdown Robyn Tomos

Mae'r arddangosfa yn Aberystwyth sy'n cynnwys yn agos at 400 o weithiau celf sy'n ymateb i'r pandemig yn un 'agored' yng ngwir ystyr y gair, meddai ein hadolygydd.

Gwireddu'r cysyniad yw rhagoriaeth arddangosfa 'Oriel Lockdown' yng Nghanolfan y Celfeddydau, Aberystwyth.

Tra oedd orielau'r Ganolfan ar gau yn ystod cyfnod clo cyntaf y llynedd, bu'r staff yn dyfalu sut yr oedd pobl yn ymdopi gyda gorfod byw dan warchae Covid-19. O ganlyniad, gyda golwg ar ailagor yn y dofodol, penderfynwyd galw am waith celf yn ymateb i'r sefyllfa. Gwahoddwyd artistiaid o bob cwr i afon gwaith yn ymwneud ag unrhyw agwedd o'r pandemig – o'r firws a'r salwch, yr hunanynysu a'r newid byd, i brofiad yr unigolyn, y gymdogaeth a'r byd. Ac roedd pendrhyddid o ran cyfrwng a maint y gwaith.

https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/?locale=enErbyn 10 Awst 2020 derbyniwyd dros 1,000 o geisiadau drwy gyfryngau torfol Twitter ac Instagram a thros e-bost. Sut i ddethol a chreu arddangosfa o'r cyfan oedd yr her a wynebodd Ffion Rhys, Curadur Arddangosfeydd y Ganolfan, ac Anthony Shapland, Cyfarwyddwr Creadigol canolfan artistiaid g39, Caerdydd. Yn ôl y ddau, roedd y fath ymateb yn brawf clir o'r swyddogaeth sydd gan gelfyddyd ym mywydau pobl. I rai, roedd gweithgaredd creadigol yn hanfodol i'w hunan-les. I eraill, roedd y llonydd yn gyfle anarfelrol a gwerthfawr i fwrw ymlaen a'u gwaith. Ond yr hyn a darodd y detholwyr oedd y straeon a oedd wrth gefn cynifer o'r ceisiaudau. Penderfynwyd peidio â gwahaniaethu rhwng y proffesiynol a'r amatur wrth ddewis gwaith gan 160 o artistiaid. Yn weithiau unigol a chyfresi o waith, detholwyd bron 400 darn celf.

Dyma arddangosfa agored yng ngwir ystyr y gair. Sioe ddemocrataidd. Ac er yr ymdrech gan y curaduron i ddilyn themâu, mae'r ystod o gyfryngau ac arddulliau yn syfrdanol.

'Pêl Pellter Cymdeithasol' sy'n croesau'r ymwelydd ym mynedfa'r ganolfan. Mae'r bêl, sy'n ddwy fedr ar ei thraws gyda'r gorchmynion du a melyn i gadw pellter priodol, ynbrawf fod hiwmor yn arf defnyddiol wrth wynebu gofid y pandemig. Mae modd i'r artist Geraint Edwards ddringo i mewn i'r bêl a chael ei rowlio ynddi. (Lluniwyd ffyn cadw draw gan artist arall.) Ac os mae ailhogi sgiliau neu jyst mynd amdani oedd yn cymell rhai artistiaid awr hamdden, roedd y bygythiad i fywoliweth ar flaen meddwl Paul Rowlands, a greodd *tableau* yn dwyn y teitl /Marwolaeth yr Economi' – angladd darn punt ar ddarn o dost.

Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, mae portreadau o bobol yn gwisgo mygydau a sawl enfys yn gydnabyddiaeth o gyfraniad gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd ynghyd â ffotograffau o draffordd dawel, stryd fawr wag a chipolwg ar ambiwlans drwy lenni lloft.

Mae Sianed Jones wedi tynnu lluniau o'r murluniau newidiol ar wal ei gardd gefn sy'n gronicl o'r cyfnod clo a Lily Lacey – Hastings wedi creu arddangosfa o gardiau post a dderbyniodd gan artistiaid ledled y byd – yn bortreadau a thirluniau yn  dymuno'r gorau iddi. Cofion cynnes yn yr unigedd.

Mae'n debyg fod rhai artistiaid sefydledig wedi manteisio ar y cyfle gwblhau gwaith a oedd wedi bod ar y gweill ers tro. Darlun siarcol a phastel o dwnnel yw'r darn mwyaf yn yr arddangosfa – mae'n seiliedig ar ffotograffau dynnodd Alice Forward yng nghloddfeydd plwm Cwm Rheidol a Chwmystwyth ar ddechrau'r clo. Oes yna olau yn y pen draw? Yn sydyn reit roedd gan gwaith arwddodcâd o'r newydd, meddai. Yn yr un modd, mae ffotograff du a gwyn enfawr o draenen wen unig wedi'i chwipio gan y gwynt yn enghraifft o 'bla;'arall. Mae Gwaith Mike Perry yn cyfeirio at ddinistr ein gwrychoedd a'n hamgylch yn fwy cyffredinol. Os mai difaterwch dyn fu'n gyfrifol am yr haint, mae ein gweithredoedd eisoes yn difetha'n byd.

Er bod drysau'r amgueddfeydd a'r orielau mawr dan glo, roedd modd chwilio, o hyd, am ysbrydoliaeth yng ngwaith yr hen feistri. Bu Dorry Spikes yn pori drwy archif ddigidol y National Gallery, Llundain, ac yng ngwaith Velásquez. Roedd hi'n gallu elwa ar weithio ar raddfa fwy wrth gopïo'r campwaith'La Tela Real'o bell yn fwy nag y gallai o wneud o wneud hynny yn yr oriel hun. Yng nghyd-destyn C-19 mae'r dehongliad newydd o olygfa hela'r baedd a'r ymdeimlad o gyfyngu yn taro deuddeg.

Mae grwp bychan o ddarluniai syml – prin y byddai'r ymwelydd yn sylwi arnynt – mae delwedd o ddau faban mewn crud gofal dwys ysbyty. Mewn llun arall yn yr un gyfres gwelwn oergell yn llawn poteli llaeth babi. Dyma brocio'r dychymyg.. Beth yw'r stori yma? Tybed a oedd ye artist, Sorsha Williams, wedi esgor ar yr efeilliaid bychan ac wedi gorfod gadael y newydd – anedig yng ngofal yr ysbyty? Ac os felly, a oedd creu'r darluniau yn lleddfu rhywfaint a ring y rhwng?

Fel sy'n nodweddu sioeau o'r fath, mewn aml i fan mae'r gweithiau wedi'u gosod un ar ben y llall drwy hongian dwbl neu driphlyg. Mae un darlun bach gan Mari Elin sydd bron ynghydd yn rhybydd ynghylch y modd y mae Covid wedi achosi mewnlifiad newydd i gefn gwlad. Wrth i don newydd o bobl ddwad brynu eiddo yng Ngeredigion – yn aml ar- lein heb ynweld â'r lle – mae'r llun gwelw a symbylwyd gan englyn 'Tyddyn y Gors' gan un o feirdd y Myddydd Bach, B.T Hopkins, yn hynod briodol:

Taer ye's Sais sy'n ei geisio, - ni falia
Ro'i filoedd amdano,
Dyna bris sy'n tlodi'n bro
Yn nyddiau'r estroneiddio.

Mae'r arddangosfa, rhwng popeth, yn gofnod gweledol gwerthfawr o'r dyddiau blin cyn canfod y brechlynnau. Mae hefyd yn dangos fel y mae'r cyfnod, er gwaitha'r gofid a'r gwae, wedi sbarduno llawer o greadigrwydd a dyfeisgarwch.

Mae angen trefnu ymweliad mlaen llaw a nynnu ar- lein, ond gair o rybydd: nid yw slot hanner awry yn ddigon i fynd ir afael ag 'Oriel Lockdown'. Rhaid dychweldy fwy nag unwaith er mwyn gwerthfawrogi'r gwaith yn iawn. Y tu hwnt i'r oeielau yn y cynteddau, yn y caffi a'r bar, hwnt ac yma, mae rhywbeth newydd i'w weld rownd pob cornel.